Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn recriwtio am Ymddiriedolwyr newydd i ymuno â'n Bwrdd

Oes gennych chi'r brwdfrydedd, yr amser a'r sgiliau i'n helpu i arwain gwaith Cymorth i Ferched Cymru i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws Cymru?

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen ddynamig sydd wedi bod yn gweithio ers dros 40 mlynedd i gefnogi rhwydwaith Cymru o wasanaethau arbenigol sy'n darparu gwasanaethau sy'n achub bywydau, ac ymgyrchu dros newid ac ymatebion gwell i oroeswyr, teuluoedd a chymunedau.

Mae hwn yn gyfle unigryw i fenywod sy'n ymrwymedig i'n gweledigaeth a'n gwerthoedd ffeministaidd ymuno â'n Bwrdd hynod ymroddgar a medrus o Ymddiriedolwr a chyfrannu at ein cyfeiriad yn y dyfodol.

Rydym ni'n chwilio am **Ymddiriedolwr ychwanegol** i ymuno â'n Bwrdd, gyda sgiliau a phrofiadau i ategu ein harbenigedd presennol.

O'r rhain, bydd o leiaf un Ymddiriedolwr yn fenyw sy'n dal swyddi arwain yn ein haelodaeth o sefydliadau gwasanaeth arbenigol lleol.

Penodiadau di-dâl yw'r rhain ond darperir costau teithio a threuliau cysylltiedig rhesymol, ynghyd â hyfforddiant a chymorth perthnasol yn ystod y cyfnod sefydlu a thu hwnt.

Dyddiad Cau: hanner dydd, 9 Mehefin 2021

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.welshwomensaid.org.uk/joinus lle gallwch lawrlwytho pecyn ymgeisio sy'n cynnwys disgrifiad o rôl Ymddiriedolwr, ffurflen gais a rhagor o wybodaeth am ein gwaith.

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol am y rôl, ebostiwch Governance@welshwomensaid.org.uk a bydd ein Prif Swyddog Gweithredol neu ein Cadeirydd yn hapus i gysylltu â chi.

Corff a arweinir gan fenywod yw Cymorth i Ferched Cymru sy'n ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r rôl hon wedi'i heithrio dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 Atodlen 9, Rhan 1. Dim ond menywod a ddylai ymgeisio. Rhaid i ymgeiswyr fod yn 18 oed neu'n hŷn. *Croesawn yn arbennig geisiadau gan fenywod o gymunedau lleiafrifol, ac yn enwedig o ranbarthau de ddwyrain Cymru a gogledd Cymru nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol ar ein Bwrdd.*

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig 1140962 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant 7483469.